# EARLY COMMUNICATION



Communication is the ability to send and receive information. It can be verbal, nonverbal, artistic and technological, among others. In order to help a child build essential skills and feel confident, they must first be able to communicate and feel positive in that interaction. It's important that there are strategies in place to promote a good communication rich environment for all children within the setting, these should be naturally embedded into everyday practice.

**Examples of communication strategies include:-**
**Visual cues**- pointing, gestures, facial expressions or objects of reference.
**Visual strategies**- now and next boards, visual time tables, sand timers and traffic lights.
**Processing time**-this could be auditory processing (how they process spoken instructions) or physically planning their movements (i.e. where they are in the room and how they are going to get to where they are going).
**Verbal communication**- Minimise questions, use simple key words and simplify your language. As adults we talk a lot and use complicated and very grown up language. Ensure you think about the child's level of language and understanding. Using key information carrying words when you communicate with the child will help them understand – rather than 'We're going to go outside, let's go and get your coat on as its very cold' replace with 'Outside? Coat on'
**Communication support**- Sign/Makaton, Baby Sign, gestures offer visual cues to support what you are saying. Don't cover your face when talking to children, they need to see your mouth and read you facial expressions and body language.
**Continuity and Repetition**- giving consistent messages to children help their communication. This includes using common language within the setting, choose phrases you will all use – story time/circle time/carpet time they all mean the same thing but can be confusing.

**Top Tips:**

- **Modelling language**- Use slow, simple, repetitive speech when talking to children. Always use real words not "babytalk". Remember that the child will need to hear the words many, many times before they'll start to use them. Label objects and actions in real life and in pictures.
- **Waiting-** Wait for the child to ask, gesture, or sign for a toy on a shelf, rather than just getting it for him/her. Do not anticipate the child's need or desires before s/he has a chance to make them known to you. If the child gets what he wants without communicating for it, s/he will be less motivated to point, gesture or ask.
- **Responding-** Delay your responses to the child's pointing, gestures or babbling when s/he wants things. Pretend you don't understand what s/he wants to see if the child will try to verbally communicate. Pausing allows the child another chance to verbally express himself/herself.
- **Use Makaton**. Makaton is a speech support system. It can help encourage language development, it does not hinder it! It helps children develop communication skills even if they are still struggling to speak with words
- **Singing and Rhymes-** Using songs and rhymes with repetitive verses to support communication encourage predictability for children giving them the confidence to join in. Provide plenty of opportunity for the children to join in by pausing on the last word of the song and see if they respond with a vocalisation or fill the gap i.e 'if you see a crocodile don't forget to ……….'
- **Enjoy making sounds** – use lots of vocalisations and sounds in play - animal sounds, silly sounds (blowing raspberries, sneezing), babble sounds etc. There are no rules, this gives the child confidence to try to imitate what you are saying, when they do repeat it back to them. This validates their efforts and encourages them to try again which then encourages the early stages of turn taking in speech. Most importantly have fun with sounds!



# CYFATHREBU CYNNAR

Cyfathrebu yw'r gallu i anfon a derbyn gwybodaeth. Gall fod yn eiriol, yn aneiriol, yn artistig ac yn dechnolegol, ymhlith eraill. Er mwyn helpu plentyn i feithrin sgiliau hanfodol a theimlo'n hyderus, yn gynta mae'n rhaid iddo allu cyfathrebu a theimlo'n gadarnhaol yn y rhyngweithio hwnnw. Mae'n bwysig bod strategaethau ar waith i hyrwyddo amgylchedd sy'n gyfoethog o ran cyfathrebu i bob plentyn yn y lleoliad. Dylai'r rhain gael eu gwreiddio'n naturiol mewn arferion bob dydd.

**Mae enghreifftiau o strategaethau cyfathrebu yn cynnwys:-**
**Ciwiau gweledol** - pwyntio, ystumiau, mynegiannau wyneb neu wrthrychau cyfeirio.
**Strategaethau gweledol** - byrddau nawr a nesaf, amserlenni gweledol, amseryddion tywod a goleuadau traffig.
**Amser prosesu** - gallai hyn fod yn brosesu clywedol (sut maen nhw'n prosesu cyfarwyddiadau geiriol) neu gynllunio eu symudiadau yn gorfforol (h.y. eu lleoliad yn yr ystafell a sut maen nhw'n mynd i gyrraedd y lleoliad nesaf).
**Cyfathrebu ar lafar**- lleihau cwestiynau, defnyddio geiriau allweddol syml a symleiddio eich iaith. Fel oedolion rydym yn siarad llawer ac yn defnyddio iaith gymhleth ac aeddfed iawn. Sicrhewch eich bod yn meddwl am lefel iaith a dealltwriaeth y plentyn. Bydd defnyddio geiriau sy'n cario gwybodaeth allweddol wrth gyfathrebu â'r plentyn yn eu helpu i ddeall – yn hytrach na 'Rydyn ni'n mynd allan, beth am roi dy gôt amdanat ti gan ei bod yn oer iawn' -dywedwch yn hytrach - 'Tu allan? - Cot amdanat ti'
**Cymorth cyfathrebu**- Arwyddo/Makaton, Baby Sign; mae ystumiau'n cynnig negeseuon gweledol i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud. Peidiwch â gorchuddio'ch wyneb wrth siarad â phlant. Mae angen iddyn nhw weld eich ceg a darllen mynegiant eich wyneb ac iaith y corff.
**Cysondeb ac Ailadrodd** - mae rhoi negeseuon cyson i blant yn eu helpu i gyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith gyffredin yn y lleoliad, dewis ymadroddion y byddwch i gyd yn eu defnyddio – amser stori/amser cylch/amser carped. Mae pob un yn golygu'r un peth ond maent yn gallu bod yn ddryslyd.

**Cyngor Da:**

- **Modelu Iaith** - Siarad yn araf, yn syml, ac yn ailadroddus gyda phlant. Defnyddiwch eiriau go iawn bob tro, nid "siarad babi". Cofiwch y bydd angen i'r plentyn glywed y geiriau lawer, lawer gwaith cyn y bydd yn dechrau eu defnyddio. Labelwch wrthrychau a gweithredoedd mewn bywyd go iawn ac mewn lluniau.
- **Aros -** Arhoswch i'r plentyn ofyn, ystumio, neu arwyddo am degan ar silff, yn hytrach na dim ond ei gael iddo/iddi. Peidiwch â rhagweld angen neu ddymuniadau'r plentyn cyn iddo gael cyfle i'w wneud yn hysbys i chi. Os yw'r plentyn yn cael yr hyn y mae ei eisiau heb gyfathrebu amdano, bydd ganddo llai o gymhelliant i bwyntio, ystumio neu ofyn.
- **Ymateb** Oedwch eich ymatebion i bwyntio, ystumiau neu barablu y plentyn pan fydd ef/hi eisiau pethau. Cymerwch arnoch nad ydych yn deall beth mae'r plentyn eisiau, i weld a fydd yn ceisio cyfathrebu ar lafar. Mae cymryd saib yn rhoi cyfle arall i'r plentyn fynegi ei hun ar lafar.
- **Defnyddio Makaton**. System cefnogi lleferydd yw Makaton. Gall helpu i annog datblygiad iaith, nid yw'n ei lesteirio! Mae'n helpu plant i ddatblygu sgiliau cyfathrebu hyd yn oed os ydynt yn cael trafferth siarad â geiriau o hyd.
- **Canu a rhigymau -** Mae defnyddio caneuon a rhigymau gyda phenillion ailadroddus i gefnogi cyfathrebu yn annog plant i ragweld gan roi'r hyder iddyn nhw ymuno i mewn. Rhowch ddigon o gyfle i'r plant ymuno i mewn drwy oedi ar air olaf y gân a gweld os ydyn nhw'n ymateb wrth leisio neu lenwi'r bwlch e.e. 'os ydych chi'n gweld crocodeil, peidiwch ag anghofio...'
- **Mwynhewch wneud synau** – defnyddiwch lawer o leisio a synau wrth chwarae - synau anifeiliaid, synau gwirion (chwythu mafon, tisian), synau cleber ac ati. Does dim rheolau. Mae hyn yn rhoi hyder i'r plentyn geisio dynwared yr hyn a ddywedwch. Pan fydd yn gwneud hyn - ailadroddwch ef yn ôl iddo. Mae hyn yn dilysu eu hymdrechion ac yn eu hannog i geisio eto, sydd wedyn yn annog y camau cynnar o gymryd eu tro wrth siarad. Yn bwysicaf oll, cofiwch gael hwyl gyda synau!

**Cardiff Early Year's Inclusion Service – June 2020**